



---

**Canllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni, Gwrthdaro Buddiannau a Diddordebau Gwleidyddol**  
Cyhoeddwyd Mai 2017

---

## 1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae S4C yn ddarlledwr cyhoeddus sydd wedi ei sefydlu gan ddeddf. Amcan corfforaethol S4C yw darparu gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr, o safon uchel, sy'n adlewyrchu a chyfoethogi bywyd yng Nghymru.
- 1.2 Mae cynnwys rhaglenni S4C yn cael ei reoleiddio yn bennaf gan Ofcom ac mae'n ofynnol i raglenni S4C gydymffurfio â gofynion Cod Ofcom.
- 1.3 Yn ogystal â Chod Ofcom, mae gallu S4C i sicrhau didueddrwydd dyladwy a thegwch yn ei gwasanaethau yn holl bwysig er mwyn cadw ei hygredd fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Dylai gwylwyr fedru cael ffydd yn hygredd a gwrthrychedd rhaglenni a gwasanaethau S4C bob amser. Mae'n hanfodol i gredadwyedd ac enw da S4C fod ei gwylwyr yn gallu bod yn siŵr na fydd unrhyw fuddiant neu weithgaredd allanol gan Wyneb neu Berson Golygyddol (fel y'u diffinnir yn Adran 3 isod) yn tansilio didueddrwydd neu hygredd S4C mewn unrhyw ffordd, ac nad yw penderfyniadau golygyddol yn cael eu effeithio gan unrhyw wrthdaro buddiannau. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio sicrhau nad yw didueddrwydd a hygredd S4C yn cael eu tansilio na fod unrhyw ganfyddiad o hynny. Ar yr un pryd, mae S4C am osgoi gosod cyfyngiadau dianghenraid neu anghymesur ar ei Hwyneb neu Bersonau Golygyddol, a bydd yn gweithredu'r canllawiau mewn modd a fydd yn sicrhau hyn.
- 1.4 Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor a chymorth i staff S4C a'i chynhyrchwyr a/neu gyflenwyr ac yn egluro polisi S4C ar faterion cydymffurfiaeth darlledu o ran cynhyrchu rhaglenni. Yn y canllawiau hyn, mae "rhaglenni" yn cynnwys rhaglenni, a thrêls i hyrwyddo rhaglenni, ar wasanaethau S4C. Gall methu â chydymffurfio â'r canllawiau hyn achosi oedi cyn derbyn rhaglenni tra bydd newidiadau yn cael eu gwneud iddynt, neu gall olygu y bydd y rhaglenni o dan sylw yn cael eu gwrthod. O ganlyniad, gall cynhyrchwyr y rhaglen wynebu costau a threuliau ychwanegol.

## 2. Canllawiau Cyffredinol

### 2.1 Cod Darlledu Ofcom

Mae'n angenrheidiol ac yn ddisgwyliadwy fod cynhyrchwyr/cyflenwyr S4C yn cydymffurfio â Chod a Chanllawiau Ofcom yn eu cyfanrwydd. Mae hyn yn un o amodau pob cytundeb rhwng S4C a'i chynhyrchwyr/cyflenwyr rhaglenni. Nid yw hi'n fwriad gan S4C i ail adrodd y Cod yn y canllawiau hyn ond yn hytrach i'ch cyfeirio at wefan Ofcom

<http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/> lle gellid dod o hyd i'r canllawiau.

Mae'r Cod yn cynnwys deg rhan:-

1. Diogelu'r rhai o dan ddeunaw oed.
2. Niwed a thramgwydd.
3. Trosedd, anhrefn, casineb a cham-drin.
4. Crefydd.
5. Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy.
6. Etholiadau a refferenda.
7. Tegwch.
8. Preifatrwydd.
9. Cyfeiriadau masnachol ar deledu.
10. Cyfathrebiadau masnachol ar radio (yn berthnasol i ddarllediadau radio yn unig).

- 2.2 Nid yw'r Cod yn cyfeirio at bob sefyllfa a all godi ond yn hytrach yn gosod allan egwyddorion, ystyron a rheolau ac, yn achos adrannau 7 ac 8, 'arferion i'w dilyn'. Mae Ofcom hefyd yn cyhoeddi yn gyson nodiadau arweiniol ar eu gwefan: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/> Mae'n ddyletswydd ar bob cynhyrchydd/cyflenwr i edrych ar wefan Ofcom yn gyson am gyfarwyddyd ac i gydymffurfio gyda'r arweiniad a roddir.
- 2.3 *Gofynion cyfreithiol eraill*  
Atgoffir bod rhaid sicrhau nad yw rhaglen yn tramgwyddo cyfreithiau Cymru a Lloegr, yn arbennig, ond heb gyfyngiad, y rhai yn ymwneud ag enllib, dirmyg, hawlfraint, preifatrwydd, caniatâd a diogelu data, yn ogystal â phob statudol perthnasol, e.e. Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, Deddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989 ac unrhyw statud perthnasol yn delio â materion gwahaniaethu neu gydraddoldeb.
- 2.4 Yn ogystal bydd S4C yn disgwyl bod pob un o gynhyrchwyr/cyflenwyr S4C yn ymwybodol o:-
- Deddf Cyfathrebu 2003.
  - Cyfarwyddeb Teledu heb Ffiniau (89/552/EEC) fel y'i diwygiwyd gan (97/36/EC) ac fel y'i hadnabyddir nawr – Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol.
  - Rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2009.
  - Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn benodol erthyglau 8, 9, 10 ac 14.
- 2.5 *Ymgynghori ag S4C*  
Os ydych am drafodaeth bellach ynghylch gweithredu'r Cod neu fater cyfreithiol arall, yna dylid cysylltu â'r Comisiynydd Cynnwys o fewn S4C sydd â chyfrifoldeb am y rhaglen. Ar adegau bydd rhaid i'r Comisiynydd Cynnwys gyfeirio ymholiadau at uned gyfreithiol S4C. Atgoffir cynhyrchwyr/cyflenwyr rhaglenni fod uned gyfreithiol S4C yn cael ei chyflogi i warchod a chynrychioli buddiannau S4C yn unig. Ni all uned gyfreithiol S4C gynghori, cynrychioli na gweithredu dros unrhyw gynhyrchydd/cyflenwr mewn unrhyw fater penodol. Yn hytrach, gall yn unig hysbysu unrhyw barti am safle neu safbwynt S4C ar y mater perthnasol. Gall safbwynt S4C newid os yw'r cyd-destun yn newid neu os daw gwybodaeth bellach i law S4C. Dylid cymryd cyngor cyfreithiol ar wahân ac annibynnol. Ni fydd cynnig safle neu safbwynt gan S4C yn amharu ar hawliau S4C neu ddyletswyddau'r cynhyrchydd/cyflenwr o dan y cytundeb neu drwydded rhwng S4C a'r cynhyrchydd/cyflenwr.

### 3. Canllawiau penodol pellach

- 3.1 Yn ogystal â'r gofynion cyffredinol yn Adran 1 o'r canllawiau hyn, mae yna ganllawiau pellach yn Adran 3 i 10 isod sy'n delio'n benodol â gwrthdaro buddiannau, safonau penodol ychwanegol ar gyfer ein Prif Wyneb a materion troseddol a gwleidyddol.
- 3.2 Yn Adran 3 i 10 o'r canllawiau hyn, defnyddir y diffiniadau canlynol:
- |                          |   |
|--------------------------|---|
| "Cyfranogwr a Ganiateir" | cyfranogwr a ganiateir sydd wedi'i ddynodi gan y Comisiwn Etholiadol at ddibenion refferendwm neu gynrychiolydd y fath gyfranogwr a ganiateir;      |
| "Gwleidydd"              | aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd y DU, Senedd Ewrop neu awdurdod lleol; asiant etholaethol neu swyddog cyflogedig gan blaid wleidyddol; |
| "Person Golygyddol"      | cynhyrchydd, golygydd neu uwch-berson arall â dylanwad dros gynnwys rhaglen ar S4C;   |

"Prif Wyneb"	person sy'n ymddangos yn rheolaidd ar S4C, neu dros un neu fwy o gyfresi S4C, mewn rôl amlwg;
"Teulu Agos"	rhieni, plant, cymar, partner y mae person yn byw gyda nhw a'u plant, a brodyr a chwiorydd;
"Wyneb"	cyflwynydd, gohebydd neu gyfwelydd ar S4C neu sylwebydd rheolaidd ar S4C (gan gynnwys Prif Wyneb);
"Ymgeisydd Gwleidyddol"	ymgeisydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd y DU, Senedd Ewrop neu awdurdod lleol.

Mae gan dermau a ddiffinnir yng Nghod Darlledu Ofcom ond nas diffinnir yn y canllawiau hyn yr un ystyr ag a roddir iddynt yn y Cod Darlledu.

#### 4. Gwrthdaro buddiannau

4.1 Fel y nodir yn adran 1.5 uchod, mae'n hanfodol i S4C sicrhau ei didueddrwydd a'i hygrededd. Er mwyn gwneud hyn, mae'n hollbwysig i osgoi gwrthdaro buddiannau neu unrhyw beth a fedrai greu canfyddiad o wrthdaro buddiannau yn ymwneud â rhaglenni a gwasanaethau S4C. Rhaid i unrhyw Wyneb neu Berson Golygyddol geisio sicrhau nad oes ganddynt unrhyw fuddiant ac nad ydynt yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau y tu hwnt i'w gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rhaglenni i S4C a fyddai'n effeithio - neu a fedrai greu canfyddiad rhesymol y byddai'n effeithio ar:

- eu gwaith i S4C; neu
- unrhyw benderfyniad golygyddol yn ymwneud â rhaglen ar S4C.

Mae'n bosib y bydd yna amgylchiadau lle bo buddiannau neu weithgareddau aelod o Deulu Agos Wyneb neu Berson Golygyddol yn arwain at wrthdaro buddiannau neu ganfyddiad o wrthdaro buddiannau ar ran yr Wyneb neu'r Person Golygyddol. Po uchaf yw proffil neu lefel cyfrifoldeb golygyddol y person dan sylw, y mwyaf fo'r angen i geisio osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau (neu ganfyddiad o wrthdaro buddiannau).

4.2 Gall gwrthdaro buddiannau neu ganfyddiad o wrthdaro buddiannau godi o ystod eang o fuddiannau neu weithgareddau. Wrth reswm, bydd natur rôl y Wyneb neu'r Person Golygyddol yn ffactor perthnasol. Er nad yw'n bosib llunio rhestr gynhwysfawr ar gyfer pob achos, gall buddiant neu weithgaredd perthnasol gynnwys:

- Ymgymryd â, neu hybu, gweithgareddau gwleidyddol. (Nid yw bod yn aelod o blaid wleidyddol neu sefydliad pleidiol-wleidyddol yn ei hun yn cael ei ystyried yn weithgaredd gwleidyddol.)
- Cysylltiadau amlwg neu sylweddol ag elusennau.
- Cysylltiadau amlwg neu sylweddol ag, neu rolau mewn, ymgyrchoedd neu gyrff sy'n ymgyrchu.
- Buddiannau ariannol a busnes.
- Siarad neu ysgrifennu'n gyhoeddus (yn cynnwys ar y we).
- Ymgymryd â gweithgareddau hysbysebu neu gymeradwyo masnachol.

4.3 Os yw Wyneb neu Berson Golygyddol yn dal unrhyw fuddiant neu'n ymgymryd â gweithgaredd a fyddai'n creu, neu a fedrai'n rhesymol greu canfyddiad o wrthdaro buddiannau, â'u rôl i S4C, dylent hysbysu hyn i S4C ar unwaith. Os oes gan y Wyneb neu'r Person Golygyddol unrhyw amheuaeth a fydd y buddiant neu'r gweithgaredd yn creu gwrthdaro neu ganfyddiad o wrthdaro, dylai ef/hi gysylltu â Chyfarwyddwr Creadigol Cynnwys S4C neu yn ei habsenoldeb, y Prif Weithredwr neu unrhyw

ddirprwy(on) a benodir i'r diben hwn, am arweiniad. Yn ogystal, gellir gwneud hyn drwy anfon e-bost at: [canllawiau@s4c.cymru](mailto:canllawiau@s4c.cymru)

- 4.4 Os oes gwrthdaro buddiannau (neu ganfyddiad rhesymol o wrthdaro buddiannau), bydd angen i S4C ystyried a yw'r buddiant neu weithgaredd yn cyd-fynd â rôl y Wyneb neu'r Person Golygyddol, ac os nad ydyw, pa gamau sy'n angenrheidiol a chymesur i'w cymryd er mwyn amddiffyn didueddrwydd a hygredd S4C. Bydd S4C yn trin pob achos yn unigol, ac yn ystyried:
- maint a natur y buddiant neu'r gweithgaredd;
  - rôl a dylanwad y person mewn cysylltiad â rhaglen(ni);
  - natur y rhaglen(ni) y mae'r Wyneb neu'r Person Golygyddol yn gysylltiedig â hi (nhw);
  - canfyddiad rhesymol gwylwyr rhaglenni S4C.
- 4.5 Disgwylir i'r cwmnïau sy'n cynhyrchu rhaglenni i S4C gael gweithdrefnau priodol yn eu lle i sicrhau eu bod yn ymwybodol, neu'n cael eu hysbysu ar unwaith, o unrhyw fuddiant neu weithgaredd gan Wynebau neu Person Golygyddol y dylid ei hysbysu i S4C o dan y canllawiau hyn. Bydd angen i'r cwmni cynhyrchu gyfleu'r wybodaeth berthnasol i S4C ar unwaith.
- 4.6 Yn ychwanegol i'r canllawiau cyffredinol uchod ynglŷn â gwrthdaro buddiannau, mae yna ganllawiau pellach isod yn delio â rhai mathau penodol o wrthdaro.

## 5. Diddordebau Gwleidyddol

- 5.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â:
- Wynebau a Phersonau Golygyddol sy'n ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol.
  - Ymddangosiadau eraill gan rai sy'n ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol.

Mae'r adran hon yn ychwanegol i'r adrannau canlynol yng Nghod Darlledu Ofcom:

5. Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy.
6. Etholiadau a Refferenda.

Y rheswm am gynnwys yr adran hon yw i geisio sicrhau'r safonau uchaf o ddiueddrwydd a hygredd yn ymwneud â materion gwleidyddol.

### 5.2 *Wynebau a Phersonau Golygyddol*

Mae'r cyfyngiadau yn Adran 5.3 i 5.6 o'r canllawiau hyn ar weithgareddau Wynebau a Phersonau Golygyddol ar gyfer S4C yn weithredol os ydynt yn ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol.

### 5.3 *Gwleidyddion mewn rhaglenni*

Ni cheir defnyddio unrhyw Wleidydd fel Wyneb mewn unrhyw raglen nac fel Person Golygyddol mewn perthynas ag unrhyw raglen oni bai bod S4C wedi caniatáu hynny. Yn unol â rheol 5.3 y Cod, yn achos rhaglenni newyddion ni ellir rhoi caniatâd i Wleidydd ymddangos fel Wyneb ac eithrio mewn achosion eithriadol pan fod yna gyfiawnhad golygyddol dros hynny. Yn achos pob Wyneb o'r fath sy'n ymddangos mewn rhaglen newyddion, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa.

### 5.4 *Ymgeiswyr mewn etholiad a chynrychiolwyr mewn refferendwm*

Dylai unrhyw Wyneb neu Person Golygyddol sy'n bwriadu:

- i) ceisio am enwebiad fel Ymgeisydd Gwleidyddol;

- ii) cael ei gynnwys mewn rhestr o Ymgeiswyr Gwleidyddol; neu
- iii) ddod yn Gyfranogwr a Ganiateir hysbysu S4C ar unwaith er mwyn trafod yr oblygiadau. Dylai'r person hwnnw hysbysu S4C eto, yn syth ar ôl derbyn canlyniad eu cais i ddod yn Ymgeisydd Gwleidyddol neu'n Gyfranogwr a Ganiateir.

Os na fydd Ymgeisydd Gwleidyddol sy'n Wyneb neu'n Berson Golygyddol yn llwyddiannus yn yr etholiad, neu os bydd yn tynnu'r cais yn ôl, dylai hysbysu S4C ar unwaith.

Yn ystod pob cam o'r broses hysbysu (neu os cyfyd mater y dylid ei hysbysu), os yw S4C o'r farn y byddai'r gweithgaredd yn effeithio ar ddiueddrwydd dyladwy neu'n creu gwrthdaro buddiannau (neu ganfyddiad rhesymol o wrthdaro), bydd angen i S4C ystyried a yw'r buddiant neu'r gweithgaredd yn cyd-fynd â rôl y Wyneb neu'r Person Golygyddol, ac os nad ydyw, pa gamau sy'n angenrheidiol a chymesur i'w cymryd er mwyn amddiffyn didueddrwydd a hygrededd S4C. Bydd S4C yn trin pob achos yn unigol, ac yn ystyried:

- maint a natur y buddiant neu'r gweithgaredd;
- rôl a dylanwad y person mewn cysylltiad â rhaglen(ni);
- natur y rhaglen(ni) y mae'r Wyneb neu'r Person Golygyddol yn gysylltiedig â hi (nhw);
- canfyddiad rhesymol gwylwyr rhaglenni S4C.

Yn unol â rheol 6.6 Cod Ofcom, ni chaniateir i Ymgeisydd Gwleidyddol neu Gyfranogwr a Ganiateir weithredu fel cyflwynydd newyddion, cyfwelydd neu gyflwynydd ar unrhyw fath o raglen ar S4C yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm. Mae'n hynod o bwysig bod S4C yn cael gwybod mor bell o flaen llaw ag sy'n bosib os oes unrhyw un o Wynebau y sianel yn bwriadu sefyll fel Ymgeisydd Gwleidyddol neu Gyfranogwr a Ganiateir.

Nid oes angen i Gyfranogwyr a Ganiateir ymgynghori â S4C yn dilyn cyhoeddi canlyniad terfynol y refferendwm, ond dylent barhau i gydymffurfio ag adran 5.5 isod.

### 5.5 *Gweithgareddau gwleidyddol eraill*

Disgwylir i unrhyw Wyneb neu Berson Golygyddol sy'n cyflawni gweithgareddau gwleidyddol sy'n arwain at wrthdaro buddiannau neu a fedrai greu canfyddiad rhesymol o wrthdaro (heblaw am y gweithgareddau a nodir yn adran 5.4 uchod) hysbysu S4C yn brydlon er mwyn asesu a yw'r gweithgareddau hynny'n gyson â rôl yr unigolyn. Dylai unrhyw Brif Wyneb neu uwch-Berson Golygyddol sy'n ymgymryd ag unrhyw fath o weithgareddau gwleidyddol hysbysu S4C ar unwaith oherwydd pwysigrwydd sicrhau didueddrwydd a hygrededd S4C. At ddibenion yr adran 5.5 hon, gall "gweithgareddau gwleidyddol" gynnwys y canlynol:

- cyflawni swydd (yn cynnwys swydd ddi-dâl) mewn sefydliad pleidiol-wleidyddol;
- siarad yn gyhoeddus ynghylch materion o natur wleidyddol neu faterion sy'n ymwneud â sefydliadau gwleidyddol neu sy'n ddadleuol yn wleidyddol neu'n ddiwydiannol;
- mynegi safbwyntiau ynghylch materion o'r fath mewn unrhyw gyfrwng cyhoeddus, yn cynnwys drwy'r wasg neu ar y we;
- ymgyrchu ar ran plaid wleidyddol neu Ymgeisydd Gwleidyddol;
- hyrwyddo barn un garfan ar gwestiwn sy'n destun refferendwm;
- rhoi rhodd neu fenthyciad i blaid wleidyddol y byddai'n ofynnol i'w ddatgelu i'r Comisiwn Etholiadol.

Nid yw bod yn aelod o blaid wleidyddol neu sefydliad pleidiol-wleidyddol o ran ei hun yn cael ei ystyried yn weithgaredd gwleidyddol.

Bydd angen i S4C ystyried a yw'r fath weithgaredd yn cyd-fynd â rôl y Wyneb neu'r Person Golygyddol, ac os nad ydyw, pa gamau sy'n angenrheidiol a chymesur i'w cymryd er mwyn gwarchod didueddrwydd a hygredd S4C. Bydd S4C yn trin pob achos yn unigol, ac yn ystyried:

- maint a natur y gweithgaredd;
- rôl a dylanwad y person mewn cysylltiad â rhaglen(ni);
- natur y rhaglen(ni) y mae'r Wyneb neu'r Person Golygyddol yn gysylltiedig â hi (nhw);
- canfyddiad rhesymol gwylwyr rhaglenni S4C.

#### 5.6 *Teulu Agos*

Bydd angen gofal a phwyll os yw Wyneb neu Berson Golygyddol yn aelod o Deulu Agos Gwleidydd, Ymgeisydd Gwleidyddol neu Gyfranogwr a Ganiateir neu berson sy'n ceisio bod yn un o'r rhain. Dylent hysbysu S4C ar unwaith os yw'r fath sefyllfa'n codi. Ni chaiff Wyneb ddangos cefnogaeth ar-sgrîn i'r cyfryw berson sy'n aelod o'i Deulu Agos. Bydd angen i S4C ystyried a yw gweithgaredd gwleidyddol aelod o Deulu Agos Wyneb neu Berson Golygyddol yn cyd-fynd â rôl y Wyneb neu'r Person Golygyddol, ac os nad ydyw, pa gamau sy'n angenrheidiol a chymesur i'w cymryd er mwyn gwarchod didueddrwydd a hygredd S4C. Bydd S4C yn trin pob achos yn unigol, ac yn ystyried:

- maint a natur y buddiant neu'r gweithgaredd;
- rôl a dylanwad y person mewn cysylltiad â rhaglen(ni);
- natur y rhaglen(ni) y mae'r Wyneb neu'r Person Golygyddol yn gysylltiedig â hi (nhw);
- canfyddiad rhesymol gwylwyr rhaglenni S4C.

#### 5.7 *Ymddangosiadau eraill gan rai â diddordebau gwleidyddol*

Mae adran 5.8 i 5.9 o'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r canlynol (oni bai eu bod yn Wynebau neu Bersonau Golygyddol – lle bydd 5.3 i 5.6 uchod yn berthnasol):

- Gwleidyddion;
- Ymgeiswyr Gwleidyddol ac unigolion sydd wedi datgan eu bwriad i geisio am enwebiad neu eu cynnwys ar restr i fod yn Ymgeisydd Gwleidyddol;
- Cyfranogwyr a Ganiateir ac unigolion sydd wedi datgan eu bwriad i ymgeisio i fod yn Gyfranogwyr a Ganiateir;
- Rhai sy'n cyflawni gweithgareddau gwleidyddol eraill, yn cynnwys y gweithgareddau a restrir yn Adran 5.5.

5.8 Bydd angen i gynhyrchydd dynnu sylw S4C ymlaen llaw pan fydd yn trefnu gwestai neu gastio ar gyfer rhaglen (ac eithrio newyddion a materion cyfoes) os yw'n ystyried defnyddio rhywun a ddisgrifir yn Adran 5.7 mewn rhaglen, e.e. fel gwestai mewn rhaglen adloniant ysgafn neu fel actor mewn rhaglen ffuglen, ond nid fel Wyneb neu Berson Golygyddol (lle bydd 5.3 i 5.6 yn berthnasol). Bydd hawl gan S4C gynnig sylwadau ar y dewis o bersonau i ymddangos a disgwylir i'r cynhyrchydd gymryd ystyriaeth o'r sylwadau.

5.9 Wrth gynnig ei sylwadau, bydd S4C yn cymryd i ystyriaeth, ymhlith ffactorau eraill:

- A yw hi'n gyfnod etholiad neu refferendwm neu a oes yna etholiad neu refferendwm ar droed;
- Yr angen am gydbwysedd gwleidyddol priodol ar draws amserlen a gwasanaethau S4C;
- Yr angen am didueddrwydd dyladwy;
- Gofynion perthnasol Cod Darlledu Ofcom, yn enwedig rheolau 6.6 a 6.7 mewn cyfnod etholiad.

5.10 Yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm, disgwylir i bob cynhyrchydd hysbysu S4C ar unwaith os oes amheuaeth y bydd un o'u cyfranwyr neu actorion, hyd yn oed os yw'r rhaglen wedi ei recordio yn

barod, yn sefyll fel Ymgeisydd Gwleidyddol mewn etholiad neu fel Cyfranogwr a Ganiateir mewn refferendwm. Yn unol â rheol 6.7 Cod Ofcom, ni chaniateir i unrhyw ymddangosiadau 'newydd' gael eu trefnu mewn rhaglenni 'anwleidyddol'.

## 6. Canllawiau Ymddygiad ein Prif Wyneb

Ein Prif Wyneb yw wyneb S4C i'r gwylwyr. O ganlyniad, mae'n bosib y gall barn a fynegir gan Brif Wyneb gael ei ystyried fel barn S4C a gall ymddygiad Prif Wyneb adlewyrchu ar S4C. Mae'r canllawiau pellach yn yr Adran hon yn berthnasol i'n Prif Wyneb yn ychwanegol i weddill y Canllawiau Rhaglenni hyn.

Disgwylir i Brif Wyneb ymddwyn mewn modd na fydd yn gallu effeithio ar ddiueddrwydd a hygredd S4C ac na fydd yn niweidiol mewn unrhyw ffordd arall i S4C a'i enw da. Heb gyfyngu ar y frawddeg flaenorol, disgwylir i Brif Wyneb ymddwyn yn unol â'r canllawiau canlynol yn ystod unrhyw gyfnod tra eu bod, neu wedi cytuno i fod, yn Brif Wyneb.

- Ni chant gyfathrebu yn gyhoeddus (e.e. drwy siarad yn gyhoeddus, blogio, llythra'n gyhoeddus neu ysgrifennu colofn, erthygl neu lyfr) ynglŷn â'r canlynol heb ganiatâd S4C ymlaen llaw:
  - materion darlledu neu faterion yn ymwneud ag S4C; neu
  - unrhyw fater a allai danseilio sefyllfa neu hygredd S4C.
- Ni chant fynegi safbwynt yn gyhoeddus ar unrhyw fater (p'un ai ar y rhestr uchod ai peidio) mewn modd a allai gael ei weld fel safbwynt o eiddo S4C neu un a gymeradwywyd gan S4C, oni cheir caniatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw.
- Ni chant ymddangos mewn unrhyw raglen arall ar S4C sy'n ymwneud â phwnc sy'n ddadleuol yn wleidyddol neu'n ddiwydiannol, oni cheir caniatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw.
- Ni chant ymwneud ag unrhyw weithgaredd hysbysebu neu gymeradwyo masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw.
- Dylent hysbysu S4C yn brydlon os ydynt yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd gwleidyddol (fel y diffinnir yn Adran 5.5 o'r canllawiau hyn) neu os oes bwriad ganddynt i wneud hynny.

Disgwylir i'r canllawiau yn yr Adran hon gael eu hadlewyrchu ym mrieff golygyddol y rhaglen berthnasol.

## 7. Gweithgareddau elusennol ac ymgyrchu

- 7.1 Ni chaiff unrhyw Wyneb neu Berson Golygyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau elusennol neu lobïo neu ymgyrchu dros unrhyw achos neu fater o bolisi cyhoeddus wneud hyn mewn modd a allai awgrymu bod S4C yn cefnogi'r gweithgaredd, elusen, lobïo, ymgyrchu, achos neu bolisi, oni chaniateir hynny gan S4C yn ysgrifenedig (gan gynnwys drwy e-bost) ymlaen llaw. Mae yna ganllawiau ychwanegol ar gyfer Prif Wyneb (gweler Adran 6 o'r canllawiau).
- 7.2 Dylid cydlynu gydag S4C (adran bartneriaethau) cyn gwahodd Gwleidyddion i ymweld â set neu gynyrchiadau S4C. Mae S4C am geisio osgoi sefyllfa lle bo rhaglenni neu gynyrchiadau S4C yn cael eu



defnyddio at bwrpas ymgyrchu. Felly yn ystod cyfnodau ymgyrchu pleidiau a chyfnodau etholiad a refferendwm, ni ddylid trefnu ymweliadau i set neu gynyrchiadau S4C i Ymgeiswyr Gwleidyddol, Cyfranogwyr a Ganiateir nac i Wleidyddion.

## 8. Hysbysebion a Chyflwynwyr

Fel y nodir yn Adran 6 o'r canllawiau, nid yw Prif Wyneb yn cael ymwneud ag unrhyw weithgaredd hysbysebu neu gymeradwyo masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw. Yn achos Wynebau eraill neu lle rhoddir caniatâd i Brif Wynebau ymwneud â gweithgareddau hysbysebu neu gymeradwyo masnachol, rhaid cydymffurfio â'r canllawiau isod:

- Ni chaiff Wyneb ymwneud ag unrhyw weithgaredd hysbysebu neu gymeradwyo pe bai yna wrthdaro rhwng ei rôl ar sgrin a'r hyn y byddai'n ei hyrwyddo.
- Ni chaiff Wyneb hyrwyddo neu gymeradwyo nwyddau neu wasanaeth sydd wedi, neu'n debygol o gael, eu dangos neu drafod mewn rhaglen lle mae'r Wyneb yn ymddangos.
- Ni ddylai Wyneb ymddangos yn ei gymeriad ar-sgrîn (h.y. cymeriad amgen i'w bersonoliaeth naturiol) wrth hyrwyddo neu gymeradwyo nwyddau neu wasanaeth.
- Ni ddylai'r gweithgaredd hyrwyddo neu gymeradwyo danseilio hygrededd a rôl arferol y Wyneb ar S4C nac ychwaith danseilio didueddrwydd a hygrededd S4C.
- Ni ellir defnyddio unrhyw ddeunydd o raglenni S4C, na dangos unrhyw gysylltiad â rhaglenni S4C, mewn unrhyw weithgaredd hyrwyddo neu gymeradwyo lle mae Wynebau yn ymddangos.

Nid yw "gweithgaredd hysbysebu neu gymeradwyo" yn cynnwys hyrwyddo neu gymeradwyo rhaglenni neu wasanaethau S4C.

## 9. Materion troseddol

Os caiff unrhyw berson sydd i ymddangos, neu i fod yn Berson Golygyddol, ar un o raglenni S4C ei arestio am drosedd neu ei gyhuddo neu gael yn euog o drosedd, rhaid i'r cynhyrchydd hysbysu ac ymgynghori gydag S4C ar unwaith a gweithredu'n unol â gofynion S4C mewn cysylltiad â'r person hwnnw.

## 10. Darlledu Gwleidyddol

### 10.1 Rhaglenni ar Adeg Etholiadau

Rhaid sicrhau bod rhaglenni a ddarlledir adeg etholiad sy'n ymwneud â'r etholiad neu wleidyddiaeth yn cydymffurfio â rheolau 5 a 6 Cod Darlledu Ofcom. Mae S4C yn mabwysiadu rheolau 6.8 i 6.12 o God Darlledu Ofcom a disgwylir i gynhyrchwyr/cyflenwyr gydymffurfio â nhw.

### 10.2 Rhaid i gynhyrchwyr gael caniatâd S4C cyn comisiynu neu gyd-gomisiynu arolwg barn mewn cysylltiad ag etholiad yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar gyfer rhaglen ar S4C.

- 10.3 Fel rheol cyn unrhyw etholiad cyffredinol neu etholiad perthnasol arall, bydd S4C yn cyhoeddi canllawiau i gynhyrchwyr a fydd yn berthnasol i'r etholiad penodol hwnnw. Disgwylir i gynhyrchwyr gydymffurfio â'r fath ganllawiau yn ystod y cyfnod sy'n arwain at y fath etholiad.
- 10.4 *Darllediadau Gwleidyddol*  
Mae gan S4C Bolisi ar Ddarllediadau Gwleidyddol, Etholiadol ac Ymgyrchoedd Refferendwm a chanllawiau cyfleu a chynhyrchu penodol ar gyfer darllediadau o'r fath. Mae'r rhain ar gael ar wefan Awdurdod S4C.
- 10.5 *Darllediadau o Senedd y Cynulliad neu'r DU*  
Rhaid i gynhyrchydd sydd am ddarlledu o, neu ddefnyddio recordiadau o weithgareddau, Senedd y Cynulliad neu'r DU gydymffurfio ag unrhyw reolau neu god ymarfer y naill Senedd neu'r llall sy'n berthnasol.

## **11. Cyffredinol**

Pan fod yna ofyn o dan y canllawiau hyn i gael caniatâd neu gymeradwyaeth gan S4C, rhaid cael y caniatâd neu gymeradwyaeth hwnnw gan Gyfarwyddwr Creadigol Cynnwys S4C neu, yn ei absenoldeb, y Prif Weithredwr neu ddirprwy(on) a enwebwyd i'r diben hwn.